## Datganiad Gwisg Ysgol Garth Olwg

**Mae'r wisg ysgol yn holl bwysig i ethos Ysgol Garth Olwg gan ei bod hi'n cefnogi ein gwerthoedd o feithrin parch, cydweithio fel un gymuned ac annog uchelgais. Yn wir, mae Llywodraeth Cymru yn pwyso ar bob corff llywodraethu i gael gwisg ysgol oherwydd ei bod hi'n:**

- creu ymdeimlad o hunaniaeth, cymuned a chydlyniant yn yr ysgol
- cefnogi ymddygiad cadarnhaol a disgyblaeth yn yr ysgol
- sicrhau bod disgyblion yn gwisgo'n briodol ar gyfer gweithgareddau dysgu
- dileu'r pwysau ymhlith cyfoedion i wisgo dillad o ffasiwn benodol
- sicrhau bod disgyblion o bob cefndir yn rhannu hunaniaeth gyffredin
- helpu i leihau'r anghydraddoldeb rhwng disgyblion a helpu i leihau rhai ffactorau sy'n arwain at fwlio
- helpu i nodi dieithriaid ar safle'r ysgol
- cefnogi a hyrwyddo ethos yr ysgol

**Mae Ysgol Garth Olwg yn falch iawn o'r modd mae hi wedi datblygu gwisg ysgol yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru a gydag ymagwedd sy'n seiliedig ar hawliau (UNCRC). Mae'r ysgol yn gweithredu'r canllawiau mewn modd rhesymol ac yn ystyried yn ofalus sut i gyfathrebu eu pwysigrwydd.**

- Mae gennym eitemau a lliwiau sylfaenol (glas a llwyd) yn unig, fel y gellir prynu eitemau mewn cyflenwyr manwerthu amrywiol am brisiau rhesymol ac nid gan un cyflenwr awdurdodedig yn unig.
- Mae opsiwn o wisgo eitemau gyda'r bathodyn a hefyd item cyfatebol plaen heb fathodyn.
- Dydyn ni ddim yn pennu gwisg wahanol ar gyfer yr haf a'r gaeaf oherwydd ond am fater o wythnosau y caiff gwisg ysgol ar gyfer yr haf ei gwisgo, o ganlyniad mae hwn yn arbed arian i deuluoedd yr ysgol.
- Mae ein blasers swyddogol yn rhai syml a'r rhataf posib sy'n golchi'n hawdd (mewn peiriant golchi) ac mae opsiwn o wisgo blaser cyfatebol plaen hefyd.
- Erbyn hyn, dydyn ni ddim yn mynnu cotiau ysgol o liw neu steil penodol er mwyn oherwydd gall olygu y bydd yn rhaid i rieni brynu dwy got ar gyfer eu plentyn: un i'r ysgol ac un i'w gwisgo ar adegau eraill.

Mae Ysgol Garth Olwg yn teimlo'n gryf y gall gwisgoedd ail-law fod o fudd i bob rhiant a thrwy ymestyn bywyd dilledyn, mae'r ysgol yn annog cynaliadwyedd a'i fuddion ehangach. Rydym yn sicrhau bod trefniadau yn eu lle pob hanner tymor fel bod gwisgoedd ysgol ail-law ar gael i ddisgyblion ar safle'r ysgol.

Rydym hefyd yn cefnogi unrhyw deulu sydd yn meddwl eu bod yn gymwys, i wneud cais am y Grant Hanfodion Ysgol. Diben y grant yw darparu cymorth ariannol i deuluoedd ar incwm isel i brynu gwisg ysgol, gan gynnwys cotiau ac esgidiau / cit chwaraeon ysgol / offer TG / bagiau ysgol a deunydd ysgrifennu / cyfarpar ar gyfer teithiau y tu allan i oriau ysgol neu ddysgu yn yr awyr agored.

https://www.rctcbc.gov.uk/CY/Resident/SchoolsandLearning/Freeschoolmeals.aspx

**Diolch am eich cefnogaeth barhaus wrth i ni gydweithio fel un gymuned i sicrhau safonau uchel ar gyfer ein holl ddisgyblion yn Ysgol Garth Olwg.**